SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU DIOGELWCH RHAG TÂN, TREFNIADAU ARGYFWNG

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Mae gan y brifysgol ddyletswydd i asesu'r risg i'w gweithwyr ac i eraill o dân ac argyfyngau eraill, ac i wneud trefniadau angenrheidiol i reoli'r risgiau hynny er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch pawb. Er bod y brifysgol wedi dirprwyo'r ddyletswydd hon, trwy ei pholisi iechyd a diogelwch, i'r colegau a'r adrannau, mae rhywfaint o gyfrifoldeb ar BOB UN ohonom ac mae gennym i gyd gyfraniad i'w wneud at ddiogelwch tân.

**PENAETHIAID COLEGAU/YSGOLION/ADRANNAU:**

Sicrhau bod staff, myfyrwyr ac eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd dan reolaeth y coleg/adran yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelwch tân a'r camau i'w cymryd mewn argyfwng.

Bydd pennaeth y coleg/ysgol hefyd yn penodi aelod staff i weithredu a monitro trefniadau diogelwch tân i fodloni gofynion polisi diogelwch tân y brifysgol â'r canllawiau cysylltiedig gan sicrhau bod dyletswyddau'r prif ddeiliad yn cael eu cyflawni fel y bo'n briodol.

**MAE'N OFYNNOL I STAFF/MYFYRWYR/ YMWELWYR WNEUD Y CANLYNOL:**

- Dilyn yr holl gyfarwyddiadau a hyfforddiant a roddwyd iddynt, e.e. yn y sesiwn gynefino iechyd a diogelwch, gwybodaeth sy'n berthnasol i'w dysgu a'u hymchwil.
- Ymgyfarwyddo â'r wybodaeth ar yr hysbysiadau ymateb tân yn yr adeiladau maent yn ymweld â hwy/gweithio ynddynt.
- Cydweithredu a chymryd rhan mewn ymarferion tân.
- Cydymffurfio â pholisi dim ysmygu'r brifysgol.
- Peidio byth â chamddefnyddio neu ymyrryd â systemau/cyfarpar a ddarparwyd at ddibenion diogelwch.
- Gwybod i bwy y dylent adrodd am bryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.
- Peidio byth â defnyddio canhwyllau, arogldarth na gwresogyddion trydan gydag 'elfennau agored' yn adeiladau'r brifysgol.
- Sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gadw'n daclus, e.e. peidio byth â chreu rhwystr i ddiangfeydd/allanfeydd tân.

**MAE STAFF ACADEMAIDD YN AML YN GORUCHWYLIO A/NEU'N CYFARWYDDO GWEITHGAREDDAU POBL ERAILL:**

Byddant felly'n sicrhau bod cyfarwyddiadau, hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol yn cael ei darparu er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau'n mynd rhagddynt yn ddiogel a chan ystyried diogelwch tân. Er enghraifft, cyfarwyddyd ar gynnal arbrawf mewn modd diogel a'r camau i'w cymryd os bydd larwm tân yn canu yn ystod darlith. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fydd myfyrwyr yn dechrau yn y brifysgol.

**CYDLYNWYR IECHYD A DIOGELWCH LLEOL:**

Cydlynwyr iechyd a diogelwch yw'r bobl gyswllt cyffredinol i staff a myfyrwyr. Cânt eu penodi fel rheol gan bennaeth y clog/ysgol/adran i sicrhau bod y coleg/ysgol/adran yn cydymffurfio â gofynion polisi diogelwch tân y brifysgol â'r canllawiau rheoli cysylltiedig, e.e. profi larymau tân unwaith yr wythnos.

**GWASANAETHAU CAMPWS:**

Mae'r Adran yn monitro diogelwch tân o ran cynnal a chadw a rheoli adeiladau a gwasanaethau adeiladu a gwasanaethau sydd o fewn cylch gorchwyl yr Adran. Gallant hefyd roi cyngor ar gydymffurfio â deddfwriaeth/canllawiau diogelwch tân perthnasol.

**MWY O WYBODAETH:**

Ceir rhagor o wybodaeth yn y polisi diogelwch tân a'r canllawiau rheoli perthnasol.

# TREFNIADAU MEWN TÂN AC ARGYFWNG

Mae'n hanfodol bod y staff a'r myfyrwyr i gyd yn ymgyfarwyddo â'r drefn weithredu mewn argyfwng, ble mae'r diangfeydd tân, lleoliad y blychau larwm, hysbysiadau ymateb tân ac unrhyw beryglon penodol sydd ym mhob adeilad maent yn ei ddefnyddio.





Blwch larwm




Mae hysbysiadau ymateb tân yn edrych fel hyn



Arwyddion ar allanfeydd tân



Mae arwyddion mannau ymgynnull yn cynnwys y symbol hwn fel rheol

**OS BYDDWCH YN CYNNAU NEU'N DARGANFOD TÂN NEU'N GWELD MWG:**

- Canwch y larwm yn y blwch larwm agosaf
- Deialwch 333 (o ffôn mewnol)
- Diffoddwch yr holl offer nwy ac eitemau trydanol peryglus os yw'n ddiogel ichi wneud hynny
- Ewch allan o'r adeilad trwy'r allanfa ddiogel agosaf (peidiwch fyth â defnyddio lifft)
- Ewch i'r man ymgynnull (peidiwch â dychwelyd i'r adeilad nes cewch ganiatâd i wneud hynny)

**DYLECH WNEUD Y CANLYNOL OS CLYWCH LARWM:**

- Diffoddwch yr holl offer nwy ac eitemau trydanol peryglus os yw'n ddiogel ichi wneud hynny.
- Ewch allan o'r adeilad trwy'r allanfa ddiogel agosaf (peidiwch fyth â defnyddio lifft)
- Caewch yr holl ddrysau wrth adael os yw'n ddiogel ichi wneud hynny.
- Ewch i'r man ymgynnull (peidiwch â dychwelyd i'r adeilad nes cewch ganiatâd i wneud hynny)

**OS BYDDWCH YN AROGLEUO NWY NEU'N AMAU BOD NWY'N GOLLWNG:**

- Diffoddwch yr holl gyfarpar nwy (diffoddwch hwy wrth falf ynysu neu fesurydd os oes modd)
- Diffoddwch bob fflam noeth, ffynhonnell o wres mawr a sigaréts
- **PEIDIWCH FYTH â throi switsys trydan ON nag OFF**
- Os yw'n ddiogel, agorwch gymaint o ffenestri a drysau allanol â phosib (ac eithrio rhai sy'n arwain i goridorau ac ystafelloedd cyfagos)
- Gwagiwch y man a effeithir a'r ystafelloedd cyfagos
- Os oes arogl nwy yn yr adeilad cyfan, gwagiwch yr adeilad i gyd
- **9am – 5pm, Llun – Gwener:** Ffoniwch yr Gwasanaethau Campws ar est **01248 38 2783**
- **Y tu allan i'r oriau uchod:** Ffoniwch Ddiogelwch ar **01248 38 2795** est **333** (Timau) neu'r cwmni nwy ar **0800 111 999**

## PEIDIWCH Â MENTRO NA DEFNYDDIO LIFFT OS OES LARWM TÂN YN CANU

(ceir rhagor o wybodaeth yn y polisi diogelwch tân a'r canllawiau rheoli perthnasol)